

POLISI PREIFATRWYDD (Myfyrwyr)

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn disgrifio sut y defnyddiwn ac y gwarchodwn unrhyw wybodaeth a gasglwn fel ein bod yn cydymffurfio â'ch hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio'r datganiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Dylech wirio'r dudalen hon yn achlysurol i sicrhau eich bod yn hapus ag unrhyw newidiadau a wnaed. Ac eithrio fel yr eglurir yn y datganiad, ni wnawn ryddhau unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd parti o dan unrhyw amgylchiadau oni bai eich bod wedi awdurdodi hynny'n benodol, neu os oes raid i ni wneud o dan y gyfraith.

I gael gwybod mwy am Ddiogelu Data, darllenwch ein [Polisi Diogelu Data](#)

CASGLU DATA – Y WYBODAETH A GASGLWN GENNYCH

Byddwn ond yn gofyn am y wybodaeth sydd ei angen arnom i gyflawni natur eich cysylltiad â'r Grŵp. Gall y wybodaeth yma gynnwys:

- Enw
- Gwybodaeth gysylltu, gan gynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn, gan gynnwys rhifau ffôn ar gyfer perthynas agosaf ac mewn argyfwng, llun ar gyfer prawf adnabod.
- Gwybodaeth ddemograffig fel cod post a sefydliadau addysgol blaenorol.
- Dewisiadau a diddordebau.
- Data personol a sensitif sydd ei angen arnom ni, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill er mwyn darparu ein cyrsiau addysgol a'n cymorth dysgu fel rhywedd, tarddiad ethnig, iaith, cenedligrwydd, gwlad eich geni, manylion pasbort, rhif yswiriant gwladol, cymwysterau academaidd blaenorol, anghenion cymorth dysgu, iechyd a lles, cofnodion am unrhyw gamau disgyblion a manylion unrhyw euogfarnau troseddol na chawsant eu cyflawni.
- Gwybodaeth am bresenoldeb (fel sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a pham)
- Gwybodaeth arall a roesoch i ni mewn cyfarfodydd, sesiynau tiwtorial, sesiynau addysgu ac anffurfiol a gasglwn i greu eich cofnod dysgu.
- Gwybodaeth sy'n cael ei chasglu ar systemau diogelwch, gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng ("CCTV")
- Mae'r Grŵp yn cofnodi gwybodaeth ar logiau serfiwr o'ch porwr, gan gynnwys eich cyfeiriad IP a'r tudalen(nau) y gofynasoch amdanynt.

DEFNYDDIO DATA – BETH A WNAWN GYDA'CH GWYBODAETH BERSONOL

Defnyddiwn eich gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- I bwrpas gweinyddol
- I ddarparu'r gwasanaethau, cynhyrchion neu'r wybodaeth y gofynasoch amdanynt.

- Er mwyn gwneud yr uchod, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'n darparwyr gwasanaeth, sefydliadau ac asiantaethau cysylltiedig.
- O bryd i'w gilydd, gallwn hefyd ddefnyddio eich gwybodaeth i gysylltu gyda chi i bwrpas ymchwil marchnad. Gallwch gysylltu gyda chi drwy e-bost, ffôn neu drwy'r post. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i deilwrio'r wefan yn ôl eich diddordebau.
- I ddatgelu eich gwybodaeth i bartïon eraill, lle mae'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud a / neu ar gyfer unrhyw achos llys presennol neu yn y dyfodol.

Dylid nodi, heblaw fel y darperir yn y polisi hwn, nad ydym yn datgelu eich gwybodaeth i drydydd partïon. Ond cofiwch oherwydd mai ni sy'n dod o hyd i rai o'r cyrsiau a gymrwch, a'u bod yn cael eu darparu drwy systemau gweithredu eraill, efallai y bydd angen i ni rannu rhai manylion i roi mynediad i chi at y cyrsiau a'r gwasanaethau hyn.

Addysg wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a dysgu a gefnogir gan yr UE

Lle'r ydych yn dilyn rhaglen ddysgu a gefnogir gan Lywodraeth Cymru neu sydd wedi'i hariannu'n uniongyrchol neu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i rannu eich gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen hon. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol y mae'n ei dderbyn a bydd yn defnyddio'r data hwn i gyflawni ei thasgau cyhoeddus wrth weinyddu a monitro ei chyllid. Rhoddir manylion llawn am Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru yn

<https://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/datacollection/?skip=1&lang=cy>

Addysg Uwch

Os ydych yn dilyn rhaglen Addysg Uwch, bydd peth o'ch gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). HESA yw'r asiantaeth swyddogol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth feintiol am addysg uwch yn y DU. Rhoddir mwy o fanylion am sut y maent yn prosesu eich gwybodaeth yn [HESA](#).

Cymorth Ariannol ar gyfer eich Cwrs

Os ydych yn derbyn cymorth ariannol ar gyfer eich cwrs, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru a Llywodraeth Cymru. Rhoddir mwy o fanylion am sut y maen nhw'n prosesu eich gwybodaeth yn [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#).

Cadw'r Wybodaeth a Gasglwn

Ac eithrio lle caniateir neu lle bo'n ofynnol i ni wneud o dan ofynion rheoleiddio neu o dan y gyfraith berthnasol, gallwn gadw eich gwybodaeth bersonol am gyn hired ag y credwn bo angen i gyflawni'r pwrpasau y casglwyd y wybodaeth bersonol ar eu cyfer (gan gynnwys er mwyn cwrdd ag unrhyw ymrwymiadau neu ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd eraill).

EICH CANIATÂD – BETH YR YDYCH YN CYTUNO IDDO

Drwy roi eich data i ni, rydych yn cytuno i'r canlynol:

- I ni gasglu a defnyddio unrhyw wybodaeth a roddwch i ni'n unol â'r pwrpasau uchod a'r datganiad preifatrwydd hwn.
- Y gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw un o'n gweithwyr, swyddogion, yswirwyr, cynghorwyr proffesiynol, asiantau a chyflenwyr fel bo angen i gyflawni'r pwrpasau yn y polisi hwn.
- Gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol lle mae'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud a / neu ar gyfer unrhyw achos llys presennol neu yn y dyfodol.
- Os bydd byth angen i ni drosglwyddo eich data rhwng gwledydd nad oes ganddynt yr un lefel o ddiogelu data â'r DU, byddwn yn sicrhau y gwarchodir eich gwybodaeth.

EICH HAWL I GAEL GWELD EICH GWYBODAETH

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gadwn amdanoch (a gallwn godi tâl bychan am wneud hyn) ac i ofyn i ni gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth. Os hoffech dderbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, e-bostiwch data@gllm.ac.uk

CWCIS

Mae ein tudalennau gwe'n defnyddio "cwcis". Ffeil fach o lythyrau a rhifau yw cwci a osodir ar eich cyfrifiadur neu ddyfais symudol os cytunwch. Mae'r cwcis hyn yn gadael i ni wahaniaethu rhyngoch chi a defnyddwyr eraill ein gwefan, sy'n ein helpu i roi profiad da i chi pan fyddwch yn pori drwy ein gwefan ac fel y gallwn wella ein gwefan. Am fwy o fanylion am y cwcis a ddefnyddiwn, darllenwch ein [datganiad ar ddefnyddio cwcis](#).

DOLENNI I WEFANNAU ERAILL

Gall ein gwefan gynnwys dolenni i wefannau eraill a allai fod o ddiddordeb. Unwaith y byddwch yn clicio ar y dolenni hyn, byddwch yn gadael ein gwefan. Felly ni allwn fod yn gyfrifol am breifatrwydd ac am warchod unrhyw wybodaeth a roddwch wrth ymweld ag unrhyw wefan nad yw'r datganiad preifatrwydd yn berthnasol iddynt. Dylech fod yn ofalus a chwilio am y datganiad preifatrwydd sy'n berthnasol i'r wefan dan sylw.

DIOGELU GWYBODAETH

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddiogel. Er mwyn atal mynediad neu ddatgelu diawdurdod, rydym wedi rhoi gweithdrefnau electronig, rheoli a ffisegol addas yn eu lle i ddiogelu a chadw'r wybodaeth a gasglwn amdanoch yn saff.

Mae popeth a brynwch ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n campysau'n brynant diogel. Mae hyn yn golygu ei bod yn ddiogel i chi roi gwybodaeth sensitif i ni, fel rhif eich cerdyn credyd er mwyn prosesu trafodiad, wrth gofrestru ar gyfer unrhyw un o'n cyrsiau.

COFRESTRYAD DIOGELU DATA

Rydym wedi cofrestru fel rheolydd data gyda Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU a'n rhif cofrestru diogelu data yw **Z6977730**.

CYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am ein polisi cwcis neu breifatrwydd, e-bostiwch **data@gllm.ac.uk**.